Brech Cewynnau

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin

Dim ond os yw'ch fferyllydd wedi eich cynghori ynglŷn â chyflwr eich babi y dylech chi ddefnyddio'r ffurflen hon.

Mae'r rhan fwyaf o fabanod yn datblygu brech cewynnau ar ryw adeg.

Gallai'r croen o gwmpas pen ôl eich babi:

- edrych yn goch neu'n goch mewn mannau
- edrych yn boenus a theimlo'n boeth
- fod â smotiau neu pothelli

Gall babanod gael brech cewynnau os:

- mae'r croen wedi bod mewn cysylltiad ag wrin neu pŵ am sbel hir
- mae'r cewyn wedi rhwbio yn erbyn y croen
- mae wedi cymryd gwrthfiotigau yn ddiweddar
- mae'r croen wedi ymateb i sebonau neu faddon swigod, cadachau persawrus neu alcohol, neu eli

Mae rhai babanod yn cael brech cewynnau pan fydd y dannedd yn dechrau dod. Gall hyn ddigwydd wrth lyncu mwy o boer nag arfer, gyda'r poer yn yr ysgarthion wedyn yn llidio'r croen.

Gallai'r croen coch ar ben ôl eich babi waethygu os yw'n cael ei heintio gan facteria neu furum (ffwng) o'r enw Candida.

Trin ac Atal

Meddyginiaethau sy'n gallu helpu

Nid yw'r meddyginiaethau hyn yn addas i bawb. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gofyn i'ch fferyllydd am gyngor ynghylch pa driniaeth sydd orau i'ch babi.

Mae eli metaniwm® ac **eli sinc** ac **olew castor** yn creu haen amddiffynnol sy'n atal croen eich babi rhag dod i gysylltiad ag wrin neu ysgarthion. Bob tro y byddwch chi'n newid cewyn eich babi, rhowch haen denau o'r eli ar ben ôl glân.

Os yw'ch babi'n hŷn nag 1 mis ac mae ei groen yn llidus, efallai y bydd eich fferyllydd hefyd yn eich cynghori i ddefnyddio eli **1% hydrocortisone**. Mae hwn yn eli steroid a all wneud y croen yn llai dolurus a choch. Lledaenwch yr eli yn denau lle mae'r croen coch a pheidiwch â'i ddefnyddio am fwy na 7 diwrnod. Os ydych chi hefyd yn defnyddio eli amddiffynnol, rhowch yr eli hydrocortisone ymlaen yn gyntaf ac aros ychydig funudau cyn rhoi'r eli amddiffynnol.

Weithiau gall brech cewynnau waethygu gyda haint ffwngaidd. Mae eli clotrimazole 1%, yn wrthffyngol a dylai helpu i glirio'r haint. Peidiwch â defnyddio'r eli amddiffynnol tra'ch bod yn defnyddio'r hufen clotrimazole i drin yr haint.

Trin ac Atal

Osgowch ysmygu a fflamau agored tra'n defnyddio elïau ar groen eich babi - mae gan rai elïau gynhwysion sy'n gallu mynd ar dân yn hawdd.

Darllenwch y daflen wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'ch meddyginiaeth bob amser.
Os ydych chi'n poeni am unrhyw sgîl-effeithiau o driniaeth, rhowch wybod i feddyg, nyrs neu fferyllydd. Gallwch hefyd adrodd am sgîl-effeithiau ar ap neu wefan Cerdyn Melyn.

Atal

Mae brech cewynnau fel arfer yn gwella ar ôl tua **3 diwrnod** ac **mae'n llai tebygol o ddod yn ôl os ydych chi'n**:

- gwneud yn siŵr bod maint cewyn eich babi'n gywir
- newid cewynnau gwlyb neu fudr cyn gynted â phosibl
- defnyddio cewynnau extra absorbent
- sychu pen ôl eich babi gyda symudiad o'r blaen i'r cefn
- glanhau pen ôl eich babi gyda dŵr neu gadachau heb arogl nac alcohol
- rhoi bath i'ch babi bob dydd ond dim mwy na dwywaith y dydd
- peidio â defnyddio sebon/swigod wrth roi bath i'ch babi
- sychu'ch babi'n dyner ar ôl ei olchi, gyda symudiad cyffwrdd ac nid rhwbio wrth sychu'r pen ôl
- peidio â defnyddio powdr talcum nac elïau ar groen eich babi
- peidio â rhoi cewyn ar eich babi os nad oes angen

Pryd i chwilio am help

Ewch yn ôl i weld eich fferyllydd os nad yw'r brech cewynnau wedi gwella o fewn 3 diwrnod o ddefnyddio'r eli amddiffynnol neu'r eli steroid. Efallai y bydd angen triniaeth ar eich babi ag eli gwrthffyngol.

Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu ffoniwch 111 os:

- Mae'r croen ar ben ôl eich babi yn goch iawn ac yn boenus
- os yw'r frech yn lledaenu neu ddim yn gwella ar ôl 7 diwrnod o ddefnyddio'r driniaeth
- mae'ch babi'n ymddangos yn sâl neu'n anghyfforddus
- mae eich babi yn llai na 3 mis oed ac mae ganddo dymheredd o 38°C neu uwch, neu dymheredd o 39°C neu uwch os yw e/hi rhwng 3 a 6 mis oed
- mae gan y babi dymheredd uchel nad yw'n dod i lawr gyda pharasetamol
- mae gan y babi system imiwnedd wan, er enghraifft yn sgil triniaeth canser neu therapi steroid

Os ydych chi'n poeni nad yw cyflwr eich babi'n gwella, neu ei fod yn gwaethygu, siaradwch â'ch meddyg teulu.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am acne neu feddyginiaeth, siaradwch â'ch fferyllydd neu edrychwch ar y gwefannau canlynol:

Gwefan y GIG: https://www.nhs.uk/conditions/baby/caring-for-a-newborn/nappy-rash/
Patient UK: https://patient.info/childrens-health/nappy-rash-leaflet
Medicines A-Z: https://www.nhs.uk/medicines/

Mae gwybodaeth o'r adnoddau uchod wedi'i chynnwys yn y daflen hon.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This leaflet is also available in English.

Fersiwn: 1 Cyhoeddwyd: Mai 2023
Pob delwedd o Getty Images a Canva Pro

GCFC | WMAS
Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru
Welsh Medicines Advice Service